**Age Alliance Wales (AAW) is the alliance of 20 national voluntary organisations committed to working together to develop the legislative, policy and resource frameworks that will improve the quality of life for all older people in Wales.**

The 'Older People's Wellbeing Monitor for Wales 2009' states:

"...many signs are pointing in the direction of the twenty-first century being the period during which ageing and older people will demand a fundamental reassessment of attitudes towards ageing and of the policy measurements that governments take in response to ageing. The exact shape of this 'silver century' is uncertain as yet and the ramifications of ageing are only partially visible and understood today."

Age Alliance Wales is calling on public bodies in Wales to work with us to develop the solutions that will enable us to collaboratively shape efficient and effective services that meet the challenges and realise the opportunities of our 'silver century'. This manifesto outlines the priorities Age Alliance Wales has identified for the coming months and years ahead.

## Promote Age Equality

The Welsh Assembly Government must take positive steps to end age discrimination in everyday life utilising the Equality Act 2010. It should:

- Implement plans to eradicate direct and indirect age discrimination within health, social care, education, the workplace, public and private sectors.
- Tackle ageist stereotypes and improve attitudes to ageing through intergenerational and citizen approaches targeted at educational establishments and workplaces in Wales.
- Carry out age proofing on all public services to effectively measure impact on older people and assess how services and policies can be improved to meet older people's needs and aspirations. Establish an annual reporting mechanism that will allow progress to be monitored and evaluated.

The following 20 organisations represent Age Alliance Wales:

- Abbeyfield Cymru
- Age Cymru
- Alzheimers Society Wales
- Arthritis Care
- Care and Repair Cymru
- Carers Wales
- Contact the Elderly
- Crossroads Wales
- Cruse Cymru
- Deafblind Cymru
- Disability Wales
- Independent Age
- NIACE Dysgu Cymru
- PRIME Cymru
- RNIB Cymru
- RNID Cymru
- RSVP Wales
- The Stroke Association Wales
- University of the Third Age in Wales
- WRVS

## Care

Older people need high quality, reliable, flexible and affordable care services both at home and within hospital, residential and palliative care settings. Both the person with care needs and the carer must be treated with dignity and respect and supported through life changes.

- Older people must be empowered to retain choice and control in the decisions that are made about their treatment and care, from early intervention through to end of life services.
- Dignity and respect must be seen as a fundamental element of care and should be mandatory for all medical, nursing and care staff training.
- Older people and carers must have access to early intervention and preventative care services and access to rehabilitation support to help maintain independence and quality of life.

## Poverty

Twenty one per cent of older people in Wales are living below the poverty line. It is vital that older people have appropriate support and information from key service providers about entitlements for which they may be eligible, directly tackling poverty and disadvantage in our communities.

- Action must be taken to tackle the key factors that contribute to the unacceptable excess winter mortality rate of older people in Wales.
- Dedicated programmes must be established to overcome economic inactivity in older people, providing support for those who need or wish to continue working beyond state pension age, including opportunities for learning and training.
- The Welsh Assembly Government must develop and deliver a financial inclusion strategy for older people to enable them to maximise their incomes and ensure they have the skills and support to manage their finances effectively.

## Independent Living

Older people must have the support and information that they need to maintain their independence, inclusion and wellbeing.

- Appropriate housing must be available to all, including the provision of sheltered and Extra Care Housing options or appropriate adaptations made to an existing property.
- Building on the Strategy for Older People, the Welsh Assembly Government must create opportunities for social, economic, educational and cultural involvement in community life. Individuals, including those in care settings, must be given the opportunity to pursue activities, which lead to self-fulfilment and maintain quality of life.
- Public and community transport systems must be widely available, accessible, affordable and integrated to enable participation and access to vital community services.

## Contact

**Age Alliance Wales**
Tŷ John Pathy, 13/14 Neptune Court, Vanguard Way, Cardiff CF24 5PJ
Tel: 029 2043 1555 • Email: info@agealliancewales.org.uk
www.agealliancewales.org.uk

Age Alliance Wales • Cynghrair Henoed Cymru

# Ail-lunio Gwasanaethau ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru

## Maniffesto Cynghrair Henoed Cymru 2011



**Mae Cynghrair Henoed Cymru yn gynghrair o 20 o sefydliadau gwirfoddol cenedlaethol sy'n ymrwymedig i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu'r fframweithiau deddfwriaeth, polisi ac adnoddau a fydd yn gwella ansawdd bywyd pobl hŷn yng Nghymru.**

Mae 'Monitor Lles Pobl Hŷn Cymru 2009' yn datgan:

"...mae sawl arwydd sy'n awgrymu mai'r unfed ganrif ar hugain yw'r cyfnod y bydd pobl hŷn yn mynnu bod agweddau tuag at heneiddio a pholisïau llywodraethau mewn ymateb i heneiddio yn cael eu hailasesu'n llwyr. Nid yw hyd a lled y 'ganrif benwyn' yn gwbl glir eto a dim ond yn rhannol y mae goblygiadau heneiddio yn cael eu gweld a'u deall y dyddiau yma."

Mae Cynghrair Henoed Cymru'n galw ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i weithio gyda ni i ddatblygu'r atebion a fydd yn ein galluogi i lunio gwasanaethau effeithlon ac effeithiol ar y cyd sy'n ateb yr heriau ac yn gwireddu cyfleoedd ein 'canrif benwyn'. Mae'r maniffesto hwn yn amlinellu'r blaenoriaethau mae Cynghrair Henoed Cymru wedi'u nodi ar gyfer y misoedd a'r blynyddoedd sydd i ddod.

## Hybu Cydraddoldeb Oedran

Mae'n rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru gymryd camau cadarnhaol i roi terfyn ar wahaniaethu ar sail oedran ym mywyd bob dydd gan ddefnyddio Deddf Cydraddoldeb 2010. Dylai:

- Roi cynlluniau ar waith i ddileu gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol o fewn sectorau iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, y gweithle, y sectorau cyhoeddus a phreifat.
- Mynd i'r afael ag ystrydebau oedran a gwella agweddau at heneiddio drwy ymagweddau rhyng-genedlaethol a dinasyddion, wedi'u targedu at sefydliadau a gweithleoedd addysgol yng Nghymru.
- Cynnal profion oedran ar bob gwasanaethau cyhoeddus i fesur yr effaith ar bobl hŷn yn effeithiol ac asesu sut y gellir gwella gwasanaethau a pholisïau i fodloni anghenion a dyheadau pobl eraill. Sefydlu dull adrodd blynyddol a fydd yn caniatáu monitro a gwerthuso cynnydd.

Mae'r 20 sefydliad canlynol yn cynrychioli Cynghrair Henoed Cymru:

- Abbeyfield Cymru
- Age Cymru
- Cymdeithas Alzheimer Cymru
- Arthritis Care
- Gofal a Thrwsio Cymru
- Cynhalwyr Cymru
- Cyswllt â'r Henoed
- Croesffyrdd Cymru
- Cruse Cymru
- Deafblind Cymru
- Anabledd Cymru
- Independent Age
- NIACE Dysgu Cymru
- RNIB Cymru
- RNID Cymru
- RSVP Cymru
- Cymdeithas Strôc Cymru
- Prifysgol y Drydedd Oes yng Nghymru
- Gwasanaeth Brenhinol Gwirfoddol y Merched

## Gofal

Mae ar bobl hŷn angen gwasanaethau gofal o ansawdd uchel, sy'n ddibynadwy, yn hyblyg ac yn fforddiadwy yn y cartref a'r ysbyty, lleoliadau preswyl a gofal lliniarol. Mae angen i'r unigolyn ag anghenion gofal a'r cynhalwr gael eu trin gydag urddas a pharch a chael eu cefnogi drwy newidiadau bywyd.

- Mae'n rhaid i bobl hŷn gael eu grymuso i gadw dewisiadau a rheolaeth o ran y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud am eu triniaeth a'u gofal, o ymyrraeth gynnar hyd at wasanaethau diwedd oes.
- Mae'n rhaid i barch ac urddas fod yn elfen sylfaenol o ofal a dylai fod yn hanfodol ar gyfer holl hyfforddiant staff meddygol, nyrsio a gofal.
- Mae'n rhaid i bobl a chynhalwyr allu manteisio ar ymyrraeth gynnar a gwasanaethau gofal ataliol a chymorth adsefydlu i helpu i gynnal annibyniaeth ac ansawdd bywyd.

## Tlodi

Mae 20% o bobl hŷn yng Nghymru'n byw yn islaw'r llinell dlodi. Mae'n hanfodol bod pobl hŷn yn cael cymorth a gwybodaeth briodol gan ddarparwyr gwasanaethau allweddol am yr hawliadau y gallent fod yn gymwys i'w cael, gan fynd i'r afael â thlodi'n uniongyrchol ac anfantais yn ein cymunedau.

- Mae'n rhaid cymryd camau i fynd i'r afael â'r ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at gyfradd ormodol annerbyniol o farwolaethau ymhlith pobl hŷn yng Nghymru yn ystod y gaeaf.
- Mae'n rhaid i raglenni pwrpasol gael eu sefydlu i oresgyn anweithgarwch economaidd ymhlith pobl hŷn, gan ddarparu cymorth ar gyfer y rheiny sydd angen neu sydd am barhau i weithio ar ôl oedran pensiwn y wladwriaeth gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer dysgu a hyfforddiant.
- Mae'n rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu a darparu strategaeth gynhwysiant ariannol i bobl hŷn er mwyn eu galluogi i uchafu eu hincwm a sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r cymorth i reoli eu harian yn effeithiol.

## Byw'n Annibynnol

Mae'n rhaid i bobl hŷn gael y cymorth a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i gadw eu hannibyniaeth, cynhwysiant a lles.

- Mae'n rhaid i dai priodol fod ar gael i bawb, gan gynnwys darparu dewisiadau tai cysgodol a Thai Gofal Ychwanegol neu addasiadau priodol yn cael eu gwneud i eiddo sy'n bodoli eisoes
- Gan adeiladu ar y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn, mae'n rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru greu cyfleoedd am gysylltiad cymdeithasol, economaidd, addysgol a diwylliannol ym mywyd cymunedol. Mae'n rhaid i unigolion, gan gynnwys y rhai mewn lleoliadau gofal, gael y cyfle i wneud gweithgareddau sy'n arwain at hunangyflawniad a chynnal ansawdd bywyd.
- Mae'n rhaid i systemau trafnidiaeth gyhoeddus a chymunedol fod ar gael yn eang, yn hygyrch, yn fforddiadwy a chael eu hymgorffori i ganiatáu cyfranogiad a manteisio ar wasanaethau cymunedol hollbwysig.

## Cysylltu

**Cynghrair Henoed Cymru**
Tŷ John Pathy, 13/14 Cwrt Neifion, Ffordd Blaen y Gad, Caerdydd CF24 5PJ
Ffôn: 029 2043 1555 • Ebost: info@agealliancewales.org.uk
www.agealliancewales.org.uk

AGE ALLIANCE WALES • CYNGHRAIR HENOED CYMRU •

# Reshaping Services for Older People in Wales

## The Age Alliance Wales Manifesto 2011

